| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r: | Pwyllgor Cynllunio |
| Dyddiad y Cyfarfod: | 12 Hydref 2016 |
| Aelod / Swyddog Arweiniol: | Y Cyng. David Smith, Parth Cyhoeddus/<br>Angela Loftus, Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai |
| Awdur yr Adroddiad: | Karsten Bruβk, Swyddog Cynllunio |
| Teitl: | Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 - 2021: Adroddiad Monitro Blynyddol Drafft 2016 |

1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Cyhoeddiad arfaethedig Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 – 2021 a chyflwyno'r ddogfen i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2016.

2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Rhoi gwybod i'r Aelodau am gynnwys Adroddiad Monitro Blynyddol 2016 y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl).

3. **Beth yw'r Argymhellion?**

Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr Adroddiad Monitro Blynyddol (Atodiad 1).

4. **Manylion yr Adroddiad**

Dan rwymedigaethau adran 76 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, fel y'i diwygiwyd, ac adran 37 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005, mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn a'i gyhoeddi ar ei wefan.

Mae monitro yn cynrychioli dolen adborth hanfodol o fewn y broses o lunio polisïau. Dylai nodi'r heriau allweddol, y cyfleoedd a'r ffyrdd posibl ymlaen ar gyfer adolygu ac addasu polisïau lleol. Mae'r broses yn offeryn ar gyfer mesur perthnasedd a llwyddiant y CDLl a nodi unrhyw newid angenrheidiol. Mae hefyd yn rhoi adborth ar y graddau mae strategaeth a pholisïau'r CDLl yn cael eu darparu a'u cyflawni.

Dyma'r ail Adroddiad Monitro Blynyddol a baratowyd gan Gyngor Sir Ddinbych, ac mae'n ychwanegu at adroddiad monitro blynyddol 2015 mewn perthynas â pherfformiad polisi lleol a chasglu tystiolaeth hanfodol ar gyfer adolygu'r CDLl gyda hyn.

Ar ôl nodi'r broses gyffredinol o fonitro’r CDLl a disgrifio sefyllfa economaidd-gymdeithasol y sir, mae'n darparu diweddariad byr ar ganlyniadau’r flwyddyn flaenorol ac yn amlinellu newidiadau i bolisïau cyfreithiol a chenedlaethol.

Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar bynciau penodol a pholisïau lleol nad ydynt yn perfformio yn ôl y disgwyl neu lle mae newidiadau cyfreithiol yn gorbwyso dangosyddion a chyrhaeddnodau a ddiffiniwyd yn flaenorol. Bydd yr elfennau hyn yn cael eu hystyried pan fydd y Cyngor yn cynnal yr adolygiad statudol gofynnol o’r CDLl gyda hyn.

- Strategaeth Twf y CDLl (Polisi CDLl BSC 1, diffyg cyflenwad tir 5 mlynedd ar gyfer tai); Dadleuir bod y dull cyfrifo a geir yn Nodyn Cyngor Technegol 1 yn arwain at brinder technegol o dir sydd ar gael nad yw'n bodoli mewn gwirionedd.
- Diwallu anghenion Sipsiwn a Theithwyr (Polisi CDLl BSC 10) a'r angen am seilwaith gwaredu gwastraff (Polisi CDLl VOE 7/8); Mae newidiadau cyfreithiol a gweithdrefnol wedi arwain at fonitro diangen o bolisïau lleol fel y'i diffinnir yn y CDLl. Serch hynny, mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd o ran bodloni'r gofynion newydd.
- Polisi CDLl PSE 1 'Ardal Adfywio Strategol Arfordir Gogledd Cymru'; Roedd cyfiawnhau’r polisi yn dibynnu'n drwm ar raglen gyfatebol Llywodraeth Cymru a ddaeth i ben fis Mawrth 2014.

5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid oes angen penderfyniad ar yr eitem hon. Fodd bynnag, mae'r CDLl yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol canlynol drwy nodi'r ble a sut bydd datblygiadau newydd yn cael eu gwneud yn y sir hyd at 2021:

- Datblygu'r economi leol;
- Sicrhau mynediad at dai o ansawdd da; a
- Moderneiddio’r Cyngor i ddarparu arbedion effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau i’n cwsmeriaid

6. **Beth fydd y gost a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gost am gymryd sylw o gynnwys yr adroddiad hwn.

7. **Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho’r Adroddiad Asesiad o’r Effaith ar Les o’r wefan, a dylid ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Nid oes Asesiad o Effaith ar Les wedi ei gynnal oherwydd nad yw'r adroddiad yn ceisio penderfyniad ar bolisi, strategaeth, trefn waith na rhaglen y Cyngor. Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn cynnwys data ystadegol yn bennaf sy'n dangos perfformiad y CDLl.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Trafodwyd yr Adroddiad Monitro Blynyddol drafft yn fanwl iawn, gyda'r posibilrwydd o gynnal yr adolygiad o'r CDLI yn gynt, yng nghyfarfod Grŵp Llywio'r CDLI ar 21 Medi 2016.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Ni ofynnwyd am ddatganiad gan y Prif Swyddog gan fod yr adroddiad hwn yn adroddiad er gwybodaeth ac nad oes angen gwneud unrhyw benderfyniad.

10. **Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn wneud i'w lleihau?**

Nid oes unrhyw risg wedi ei nodi.

11. **Pŵer i wneud Penderfyniad**

Mae'r ddyletswydd statudol i gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol wedi ei hamlinellu yn Adran 76 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.